O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U

# 2012 Rhif 2408 (Cy. 258)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A550 (Cyfnewidfa Parc Glannau Dyfrdwy, Sir y Fflint) (Gwahardd Cerbydau, Cerddwyr a Beicwyr Dros Dro) 2012

*Gwnaed* *18 Medi 2012*

*Yn dod i rym* *1 Hydref 2012*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Dolgellau - Man i'r De o Benbedw (yr A550) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd") wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arno.

Mae Gweinidogion Cymru, gan hynny, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) a phob pŵer galluogi arall(2), drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Hydref 2012 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A550 (Cyfnewidfa Parc Glannau Dyfrdwy, Sir y Fflint) (Gwahardd Cerbydau, Cerddwyr a Beicwyr Dros Dro) 2012.

**2.** —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" *("exempted vehicle")* yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio mewn cysylltiad â'r gwaith sydd wedi arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period")* yw'r cyfnod hwnnw sy'n cychwyn am 18:30 o'r gloch ar 1 Hydref 2012 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud oddi yno'n barhaol;

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" *(" "the length of the trunk road")* yw'r darn hwnnw yw'r ffordd ymuno tua'r gorllewin â chefnffordd yr A550 wrth Gyfnewidfa Glannau Dyfrdwy, yn Sir y Fflint, sy'n ymestyn o bwynt wrth ffin Cymru/Lloegr i bwynt lle y mae'n uno â'r A5117, cyfanswm pellter o 135 o fetrau.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar hyd y darn o'r gefnffordd.

**4.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, gerdded ar y darn o'r gefnffordd.

**5.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio, neu beri reidio, unrhyw feiciau pedal neu feiciau tair olwyn ar y darn o'r gefnffordd.

**6.** Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys ond ar yr adegau ac i'r graddau y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y cyfyngiad y maent yn cyfeirio ato yn weithredol.

**7.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am chwe mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig y 18 Medi 2012

*R Morgan*
**R MORGAN**
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.

**(2)** Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.